**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 10-02(p6)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 19 Mehefin 2002

**SECTORAU ERAILL**

**Pwnc**

1. Rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar hynt y broses o ddatblygu strategaethau ar gyfer sectorau eraill Coetir a Biomàs, Garddwriaeth a Physgodfeydd a Ffermio Dwr.

**Y Cefndir**

**Datblygu Coetir a Biomàs**

2. Mae drafft terfynol cynllun gweithredu'r Grwp Strategaeth Datblygu Coetir a Biomàs i'w weld yn Atodiad A. Mae'r cynllun yn nodi bod cryn rwystrau i'r gwaith o ddatblygu sector biomàs yng Nghymru, neu reoli coetir sy'n bodoli eisoes i ddibenion ynni adnewyddadwy, yn enwedig yr angen i ddatblygu marchnadoedd sy'n bodoli eisoes neu farchnadoedd newydd ar gyfer y deunydd crai a gynhyrchir, a'r angen i fynd i'r afael â chymhellion i gynhyrchu.

3. Mae'r cynllun gweithredu yn rhestru 24 o bwyntiau gweithredu i'w hystyried. Caiff deg ohonynt eu cyfrif yn hanfodol i ddatblygu'r sector. Mae'r pwyntiau gweithredu hyn wedi'u crynhoi yn adran 4 y cynllun. Mae'r Grwp Strategaeth hefyd yn argymell sefydlu grwp llywio ar gyfer y diwydiant cyfan er mwyn monitro'r ffordd y cyflawnir y cynllun gweithredu.

**Garddwriaeth**

4. Yn Atodiad B, ceir adroddiad ar gynnydd a baratowyd gan Promar International (Promar) ar y cyd â'r Grwp Strategaeth Garddwriaeth. Mae'r adroddiad yn arwain at ddatblygu strategaeth ar gyfer y sector garddwriaeth am y 5 mlynedd nesaf. Disgwylir i'r ddogfen strategaeth fod ar ei ffurf derfynol erbyn diwedd Gorffennaf. Bydd y Pwyllgor yn derbyn papur cyn gynted â phosibl wedi hynny.

**Pysgodfeydd a Ffermio Dwr**

5. Er i'r Grwp Strategaeth gael ei sefydlu'n wreiddiol yn dilyn adroddiad Coleg Amaethyddol yr Alban ar botensial sectorau eraill yng Nghymru, mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu yn cael ei wneud ar wahân, ochr yn ochr â llunio strategaeth pysgodfeydd i Gymru gyfan. Bydd y Pwyllgor yn derbyn papur ar bysgodfeydd a ffermio dwr mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Gweithredu**

6. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a rhoi eu sylwadau fel y bo'n briodol.